CYNHADLEDD FFERMIO CYMRU 2021

# 1 – 5 Chwefror 2021

**Gofalwch na fyddwch yn colli unrhyw ran o Gynhadledd Ffermio Cymru 2021.**

Eleni, bydd y drysau rhithiol ar agor rownd y cloc i chi wrando a gwylio pan fydd hynny'n gyfleus i chi, a hynny o'ch cartref.

Bydd cyfres o gyflwyniadau 20 munud o hyd, gwerth eu gweld yn ysbrydoli ac yn rhoi gwybodaeth wrth i chi weld a chlywed y prif areithwyr yn trafod amrywiaeth eang o themâu. Disgwyliwch gael eich hysbrydoli yn bersonol ac ar lefel busnes.

**SUT I GOFRESTRU:** **CLICIWCH YMA** i ddod o hyd i'r ffurflen gofrestru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofrestru i gael dolen i holl sesiynau'r gynhadledd. Fel arall, os oes gennych broblemau ymgysylltedd ffoniwch ni ar 08456 000 813 i archebu recordiad DVD.

**Rhannwch y gair –** rhannwch eich barn ar Gynhadledd Ffermio Cymru rhithiol eleni **#cynhadleddffermiocymru**

## SIARADWYR:



Wrecsam, Cymru

### LESLEY GRIFFITHS AS,
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

**Creu sector amaeth gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol**

Beth bynnag sydd gan 2021 i'w gynnig a pha bynnag gyfleoedd, heriau neu sicrwydd sy'n ein hwynebu, mae Lesley Griffiths, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig Llywodraeth Cymru yn benderfynol o ddarparu'r gefnogaeth angenrheidiol i sicrhau bod ein diwydiant amaeth yn parhau i fod yn broffidiol ac yn gynaliadwy. Hoffai'r Gweinidog ddiolch i'n ffermwyr am fwydo'r genedl, sicrhau bod cymunedau gwledig yn dal i ffynnu ac am ddiogelu busnesau teuluol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r Gweinidog hefyd yn edrych tua'r dyfodol a bydd yn amlinellu ei gweledigaeth ar gyfer Cynllun Ffermio Cynaliadwy newydd Cymru.




Sir Amwythig, Lloegr

### OLLIE OLLERTON
**Chi yw'r prosiect pwysicaf!**

Yn gyn-aelod o'r Lluoedd Arbennig gyda'r SAS a'r SBS, mae Ollie wedi bod ar ymgyrchoedd mewn rhai o'r lleoliadau peryclaf a mwyaf pellennig ar y blaned ac mae'n un o'r ymladdwyr sydd wedi ei hyfforddi orau yn y byd. Ar ôl 13 mlynedd dramor dychwelodd adref a dechreuodd ddatblygu cysyniad a fyddai'n defnyddio ei flynyddoedd o hyfforddiant a phrofiad ac a fyddai o fudd i eraill. Wedi'i ddatblygu trwy arbenigedd Lluoedd Arfog, mae dull Ollie i ddatblygiad personol yn anelu i newid y ffordd yr ydym yn meddwl, y ffordd yr ydym yn teimlo ac yn perfformio.

***Yn ychwanegol at y sesiwn yn y gynhadledd, bydd Ollie yn arwain sesiwn holi ac ateb am 20:00 ar ddydd Llun 1 Chwefror.***



Hururui, Seland Newydd

### ANDY FOX
**Deugain o awgrymiadau ar gyfer cyfnod cythryblus - Pan fydd y llwybr yn mynd yn anodd...dyna yw bywyd!**

Brexit, pandemig, tywydd eithafol a'r ffaith bod dirwasgiad ariannol sydd y gwaethaf ers 300 mlynedd – nid yw'n syndod bod llawer ohonom yn teimlo dan bwysau! Yn ystod y deg mlynedd ar hugain diwethaf, wrth iddo dystio i'r llanastr a achoswyd gan amryw o gyfnodau o sychder a daeargryn anferth, mae wedi datblygu ei strategaethau ymdopi rhyfeddol ei hun. Yn y cyflwyniad yma, bydd Andy yn rhannu rhywfaint o'i brofiad personol a'r hyn y mae wedi ei ddysgu y mae'n dweud y gallwn ni i gyd ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd gwaith a phersonol. Pa bynnag amseroedd caled sydd o'n blaenau, bydd awgrymiadau ymarferol a hwyliog Andy yn ein helpu i ddod trwyddyn nhw!



Adelaide, Awstralia

### ALEX THOMAS
**Heuwch Hedyn Diogelwch**

Gair caled yw cydymffurfiad. Mae cydymffurfio gyda deddfwriaeth iechyd a diogelwch yn y gwaith yn aml yn cael ei gysylltu a pholisiau, cosbau a chyfarpar diogelu personol. Mae'n rhoi'r argraff o fod yn gostus, cymhleth ac yn cymryd llawer o amser - er hyn rydym yn anghofio - mai bwriad cydymffurfiad yn syml yw: i arbed bywydau. Wrth ganolbwyntio ar storiau personol, mae'r cyflwyniad hwn yn anelu i newid y ffocws o 'dicio blychau' i rymuso pobl, rheoli risg, ac yn y pen draw atal pobl rhag anafu neu gael eu lladd o fewn diwydiannau gwledig.



Sir Amwythig, Lloegr

### ALEX CARSON-TAYLOR FRGS
**Byd dewr newydd? Oblygiadau gadael yr UE i'r sector bwyd-amaeth**

Mae Alex yn arbenigwr masnach rhyngwladol sy'n gweithredu ar draws y sector bwyd-amaeth a bydd yn darparu diweddariad amserol am y berthynas fasnach rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd yn dilyn diwedd y cyfnod trosglwyddo yn Rhagfyr 2020, ein cytundebau gyda gwledydd eraill a sut y gallwn ddatblygu cyfleoedd masnach yn y dyfodol i'r sector.

***Yn ychwanegol at y sesiwn yn y gynhadledd, bydd Alex yn arwain sesiwn holi ac ateb am 20:00 ar ddydd Mawrth 2 Chwefror.***



Dungannon, Gogledd Iwerddon

### DR JONATHAN BIRNIE
**21 yn 21 mewn 21**

Mewn 21 munud, bydd Jonathan Birnie yn rhannu 21 o ffeithiau ar sut i gynnal busnes yn 2021.



Pen Llŷn, Cymru

### IORWERTH WILLIAMS
**Trafodaeth am dreth dros baned**

Bydd Iorwerth Williams, Cyfrifwyr Dunn ac Ellis yn dweud popeth y mae arnom 'angen' ei wybod am dreth yn yr amser a gymer i yfed cwpaned o de!

**Geni yn ffermwr neu eni ar fferm?**

Ffermwyr o'r genhedlaeth gyntaf sy'n rhedeg busnesau llwyddiannus yn rhannu'r hyn sydd yn eu hysgogi a'u gyrru yn eu blaenau, gan gynnig gwersi gwerthfawr i berchenogion ddeiliaid neu ffermwyr y genhedlaeth nesaf sy'n olynu eu rhieni ar fferm.

RHUN WILLIAMS - *Ffermwr bîff a defaid cenhedlaeth gyntaf - Tregaron, Cymru*
MATTHEW JACKSON - *Ffermwr llaeth cenhedlaeth gyntaf - Pwllheli, Cymru*
RHIDIAN GLYN - *Ffermwr bîff a defaid cenhedlaeth gyntaf - Machynlleth, Cymru*





***Yn ychwanegol at y sesiwn yn y gynhadledd, bydd Rhidian, Rhun a Matthew yn arwain sesiwn holi ac ateb am 20:00 ar ddydd Mercher 3 Chwefror.***



Dulyn, Iwerddon

### YR ATHRO ALICE STANTON
**Ychydig o wyddoniaeth**

Beth yw'r dystiolaeth ddiweddaraf am fwydydd o anifeiliaid? A ydyn nhw'n niweidiol neu'n fanteisiol i iechyd dynol? Bydd yr Athro Alice Stanton yn trafod data a gyhoeddwyd yn ddiweddar am ddiet iach, gan gynnwys rôl bwydydd sy'n tarddu o anifeiliaid. Bydd yn dangos y dystiolaeth y gall bwyta cig a chynnyrch llaeth yn gymedrol gael effeithiau cadarnhaol pwysig ar iechyd. Bydd hefyd yn sôn am yr angen am wybodaeth glir am faeth a chynaliadwyedd ar labeli pecynnau.



Swydd Stafford, Lloegr

### SOPHIE COLQUHOUN
**Gwerth Cymreictod a'r hyn y bydd siopwyr y dyfodol ei angen**

Wrth i ni ffarwelio â 2020 a chroesawu 2021 mewn byd o fath hollol newydd, bydd Sophie Colquhoun, gyda'r ddealltwriaeth a gynigwyd gan dîm Bwyd a Diod Cymru Llywodraeth Cymru, yn sôn am y ffordd y mae'n bywydau yn newid, anghenion siopwyr y dyfodol a'r cyfleoedd a'r heriau y mae hynny'n eu dwyn.



Copenhagen, Denmarc

### ANNE VILLEMOES
**Rheoli Enw Da – o'r giât i'r plât**

A ydym yn cynaeafu porc neu yn lladd moch? A ydym yn ffermwyr neu yn gynhyrchwyr bwyd? A ydym yn rhan o'r broblem – neu'n rhan o'r ateb? Mae'r cyfan yn dibynnu ar bwy sy'n gofyn ac, wrth gwrs, ar bwy sy'n ateb. Mewn byd lle mae bwyd yn chwarae'r rhan bwysicaf efallai yn y pegynnu cynyddol rhwng gwledydd, diwylliannau a safonau byw, mae'r amgyffrediad yn aml yn drech na'r ffeithiau. Ar ddiwedd y dydd, enw da a chanfyddiad sy'n penderfynu a fydd busnes yn ffynnu neu beidio.

***Yn ychwanegol at y sesiwn yn y gynhadledd, bydd Anne yn arwain sesiwn holi ac ateb am 20:00 ar ddydd Iau 4 Chwefror.***

**CYNHADLEDD FFERMIO CYMRU 2021**

# 1 – 5 Chwefror 2021

**Gofalwch na fyddwch yn colli unrhyw ran o Gynhadledd Ffermio Cymru 2021.**

Eleni, bydd y drysau rhithiol ar agor rownd y cloc i chi wrando a gwylio pan fydd hynny'n gyfleus i chi, a hynny o'ch cartref.

Bydd cyfres o gyflwyniadau 20 munud o hyd, gwerth eu gweld yn ysbrydoli ac yn rhoi gwybodaeth wrth i chi weld a chlywed y prif areithwyr yn trafod amrywiaeth eang o themâu. Disgwyliwch gael eich hysbrydoli yn bersonol ac ar lefel busnes.

**SUT I GOFRESTRU:** Ewch i wefan Cyswllt Ffermio i ddod o hyd i'r ffurflen gofrestru. Dim ond unwaith y bydd angen i chi gofrestru i gael dolen i holl sesiynau'r gynhadledd. Fel arall, os oes gennych broblemau ymgysylltedd ffoniwch ni ar 08456 000 813 i archebu recordiad DVD.

**Rhannwch y gair –** rhannwch eich barn ar Gynhadledd Ffermio Cymru rhithiol eleni **#cynhadleddffermiocymru**

## BYWGRAFFIADAU SIARADWYR



### LESLEY GRIFFITHS AS, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig

Magwyd Lesley Griffiths yng Ngogledd Ddwyrain Cymru ac mae wedi byw a gweithio yn Wrecsam ers yn oedolyn. Mae ganddi ddwy ferch ac mae wedi bod yn llywodraethwr ysgol a chynghorydd cymuned. Bu'n gweithio yn Ysbyty Maelor Wrecsam am 20 mlynedd. Cyn ei hethol roedd yn gweithio fel cynorthwyydd etholaeth i Ian Lucas, AS. Yn un o gefnogwyr pybyr datganoli yng Nghymru, chwaraeodd ran weithredol yn ymgyrch 'Ie dros Gymru' 1997. Etholwyd hi i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 2007 a bu ar nifer o Bwyllgorau'r Cynulliad. Hi sefydlodd y Grŵp Hosbis Trawsbleidiol a bu'n gadeirydd arno. Yn Rhagfyr 2009, fe'i penodwyd yn Ddirprwy Weinidog dros Wyddoniaeth, Arloesi a Sgiliau. Yn dilyn ei hail-ethol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 2011, penodwyd Lesley Griffiths yn Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ac ym Mawrth 2013 fe'i penodwyd yn Weinidog dros Lywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth. Ym Medi 2014, fe'i penodwyd yn Weinidog dros Gymunedau a Thaclo Tlodi. Ym Mai 2016, ar ôl ei hail-ethol, fe'i penodwyd yn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig. Penodwyd Lesley yn Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig ar 3 Tachwedd 2017. Ar 13 Rhagfyr 2018, penodwyd Lesley yn Weinidog dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig. Tu hwnt i wleidyddiaeth, ei phrif ddiddordebau yw cerddoriaeth, cerdded a gwylio Clwb Pêl-droed Wrecsam. Yn y gorffennol bu Lesley yn gyfarwyddwr etholedig ar Ymddiriedolaeth Cefnogwyr Wrecsam.



### OLLIE OLLERTON

Ac yntau yn un o gyn-aelodau cyntaf Lluoedd Arbennig y Deyrnas Unedig i siarad yn agored â'r cyfryngau a datgelu pwy yw mewn gwirionedd, mae gan Matthew 'Ollie' Ollerton stori anhygoel i'w hadrodd. Yn gyn-aelod o'r Lluoedd Arbennig gyda'r SAS a'r SBS, mae Ollie wedi bod ar ymgyrchoedd mewn rhai o'r lleoliadau peryclaf a mwyaf pellennig ar y blaned ac mae'n un o'r ymladdwyr sydd wedi ei hyfforddi orau yn y byd. Ar ôl gadael yr ysgol ac ymuno â Chorfflu'r Llynges Frenhinol, fe wnaeth anturiaethau Ollie sicrhau ei fod yn cael ei argymell ar gyfer yr SAS yn fuan iawn. Yno, fe fu ar ymgyrchoedd amlwg iawn yn ymwneud ag achub gwystlon, ymladd yn erbyn cyffuriau a therfysgaeth, ymhlith pethau eraill. Yna aeth Ollie ymlaen i ddefnyddio ei arbenigedd fel gwarchodwr preifat lle'r oedd yn gyfrifol am gyflogi a hyfforddi llu diogelu o 2,000 o bobl o Irac, cyn anelu at Dde Ddwyrain Asia i reoli tîm o dri oedd yn gweithio ar gylchoedd masnachu plant, achos sy'n dal yn agos at ei galon heddiw. Dychwelodd Ollie i'r Deyrnas Unedig yn 2014 ar ôl 13 mlynedd dramor a dechreuodd ddatblygu cysyniad a fyddai'n defnyddio ei flynyddoedd o hyfforddiant a phrofiad ac a fyddai o fudd i eraill. Gyda hyn, daeth BREAK-POINT i fodolaeth; rhaglen arweinyddiaeth yn cynnwys dulliau a dealltwriaeth a ddatblygwyd trwy arbenigedd Lluoedd Arbennig i newid y ffordd yr ydym yn meddwl, y ffordd yr ydym yn teimlo ac yn perfformio yn dilyn hynny.



### ANDY FOX

Mae Andy Fox yn ffermio fferm bîff a defaid 1,600 hectar yn Hurunui, Seland Newydd, sydd wedi bod yn y teulu ers pedair cenhedlaeth. Yn ystod y deg mlynedd ar hugain diwethaf, wrth iddo dystio i'r llanastr a achoswyd gan amryw o gyfnodau o sychder a daeargryn anferth, mae wedi datblygu ei strategaethau ymdopi rhyfeddol ei hun. Felly, pan fydd yn gweld pobl yn ei gymuned wledig ei hun yn cael trafferth ymdopi, mae'n camu i'r bwlch. Yn ychwanegol at ei ddyletswyddau ffermio mae Andy wedi bod â nifer o rolau arwain trwy gydol ei yrfa gan gynnwys bod yn gyfarwyddwr Bîff a Chig Oen Seland Newydd a Bwrdd Cig Seland Newydd rhwng 2006 a 2015. Fe'i penodwyd yn Gadeirydd ar Ymchwil Gwlân Seland Newydd yn 2019. Mae'n briod ac mae ganddo dri o feibion sy'n oedolion. Yn y cyflwyniad yma, bydd Andy yn rhannu rhywfaint o'i brofiad personol a'r hyn y mae wedi ei ddysgu y mae'n dweud y gallwn ni i gyd ei ddefnyddio mewn sefyllfaoedd gwaith a phersonol. Pa bynnag amseroedd caled sydd o'n blaenau, bydd awgrymiadau ymarferol a hwyliog Andy yn ein helpu i ddod trwyddyn nhw!



### ALEX THOMAS

Wedi ei hysbrydoli gan ei phrofiadau fel gofalwraig ran-amser am ei thad anabl o ganlyniad i'w oes o waith mewn amaethyddiaeth, Alex yw Sylfaenydd y prosiect #HeuwchHedynDiogelwch ac mae'n ffyrnig wrth eiriol dros iechyd, diogelwch a llesiant y rhai sydd mewn diwydiannau a chymunedau gwledig. Gyda mwy na 14 mlynedd o brofiad o waith mewn iechyd a diogelwch, roedd Alex yn enillydd rhanbarthol yng Ngwobrau Syngenta Growth 2020, yn rownd derfynol y Gwobrau Weekly Time Shine 2020, roedd yn Ferch Wledig y Flwyddyn AgriFutures 2018 (De Awstralia) ac yn enillydd Gwobr Augusta Zadow SafeWork De Awstralia 2018, ymhlith llu o wobrau eraill. Yn Gyfarwyddwraig a Phrif Ymgynghorydd balch ar ei busnes ymgynghori ei hun, prif amcan Alex yw helpu ei chleientiaid i ail-werthuso gwerth iechyd a diogelwch yn y gwaith o fod yn ticio blychau i rymuso pobl, lleihau risg, ac yn y pen draw atal pobl rhag anafu. Wrth herio'r status quo, mae Alex yn mabwysiadu cysyniadau o seicoleg gymhwysol, niwro-wyddoniaeth, cymdeithaseg a iechyd a diogelwch modern i helpu i hwyluso deilliannau mwy diogel, iachach i fusnesau, diwydiannau a chymunedau. Yn Gymrawd o Sefydliad Arweinyddiaeth y Llywodraethwr ac yn gyn-aelod o Fwrdd Grŵp Safle Hart Field, mae gwaith Alex wedi ei gymeradwyo yn ffurfiol gan Gyfarwyddwr Gweithredol SafeWork De Awstralia ac mae wrth ei bodd yn mentro gwneud pethau mewn ffordd wahanol. Yn llawn cydymdeimlad ac yn feistr ar gydweithredu, mae Alex hefyd yn hoff iawn o geffylau, wedi teithio taith Kokoda ddwywaith ac yn iogi amatur.



### ALEX CARSON-TAYLOR FRGS

Mae Alex yn arbenigwr masnach rhyngwladol sy'n gweithredu ar draws y sector bwyd-amaeth. Mae ei waith yn cynnwys datblygu allforio, strategaethau mynediad i'r farchnad, cynghori ar faterion tariff a heb dariff, hyfforddiant mewn masnach ryngwladol, cyfarfodydd briffio cyfrinachol penodol a rhoi dealltwriaeth ar weithredu cytundebau ar sail yr WTO. Mae gan Alex gymwysterau proffesiynol mewn amaethyddiaeth, masnach ryngwladol a chyllid, buddsoddi a rheoli gweithrediadau. Yn ychwanegol mae Alex yn Gadeirydd ar Gymdeithas y Gyfraith Amaethyddol ac yn cynrychioli aelodaeth amlddisgyblaeth o 1,500 o weithwyr proffesiynol ar draws y Deyrnas Unedig.



### DR JONATHAN BIRNIE

Gyda chefndir amaethyddol a gradd mewn Gwyddor Anifeiliaid o Brifysgol Caeredin, aeth Jonathan Birnie ymlaen i gael Doethuriaeth o Sefydliad Ymchwil Amaethyddol Gogledd Iwerddon. Yna bu'n gweithio fel Cynghorydd Polisi i Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr yn Lloegr gan ganolbwyntio ar dda byw. Bu'n gweithio wedyn fel Rheolwr Amaethyddol cyntaf Sainsbury's, yn eu prif swyddfa yn Llundain cyn symud i Dunbia, lle treuliodd 13 mlynedd yn rhedeg datblygu ac ymchwil amaethyddol, gan orffen fel Pennaeth Amaethyddiaeth ac Ymchwil, gyda thîm ar draws y Deyrnas Unedig. Gadawodd Dunbia yn Awst 2017 i sefydlu ei fusnes ymgynghori bwyd-amaeth newydd sydd â rhan fawr mewn datblygu strategol a chyflawni ymarferol gyda sefydliadau tollau, cyrff anllywodraethol, sefydliadau gwyddoniaeth, busnesau masnachol a ffermydd. Derbyniodd Ysgoloriaeth Nuffield, gan raddio yn 2015 yn dilyn astudiaeth o ddulliau ar gyfer creu newid yn y diwydiant amaeth.



### IORWERTH WILLIAMS

Mae Iorwerth Williams yn gyfrifydd siartredig ym Mhorthmadog, gyda dros 17 mlynedd o brofiad, ar ôl cymhwyso gyda'r cwmni cyfrifyddu mwyaf yn y byd. Mae Dunn ac Ellis yn cynnig eu gwasanaethau o ran cyfrifyddiaeth, treth, ymgynghori, archwilio, llif arian ac ati i bob math o fusnesau yn lleol a chenedlaethol. Bydd Iorwerth yn treulio ei amser hamdden ar y fferm lle mae'n cadw defaid, moch, ieir, ac yn rhedeg unedau gwyliau gyda'i bartner Ann a'i blant Wmffra a Betw. Ag yntau â diddordeb mor frwd mewn amaethyddiaeth, hoffter mawr Iorwerth yw cyfarfod ffermwyr i drafod cyfrifon ac esbonio a chynghori ar welliannau posibl a'r dyfodol mewn modd di-flewyn ar dafod iawn.



### RHUN WILLIAMS

Mae Rhun Williams yw'r cyntaf o'i deulu i ffermio ac mae wedi byw yn Ochor, Tregaron ers saith mlynedd. Mae'r fferm ei hun yn 45 hectar (ha) gyda 40ha arall ar rent ar sail tymor hir. Mae'r busnes yn cadw 650 o famogiaid magu a hefyd yn magu ei stoc cyfnewid ei hun. Cedwir 60 o loeau wedi eu diddyfnu hefyd ar unrhyw un adeg. Mae Rhun yn gweld gwerth busnes ar sail porthiant a dros y blynyddoedd mae wedi canolbwyntio ar dyfu cnydau porthiant ac yna gwella'r gwndwn glaswellt. Yn fwy diweddar mae wedi defnyddio system bori cylchdro fel rhan o fod yn safle ffocws Cyswllt Ffermio.



### MATTHEW JACKSON

Tyfodd Matthew Jackson yn y ddinas ond roedd ganddo'r uchelgais y byddai'n godro ei fuchod ei hun rhyw ddydd. Yn entrepreneur penderfynol y mae ei ddatblygiad trawiadol mewn godro wedi ei symud o fod yn berchen ar yr un fuwch i fod â 1,300 mewn dim ond 11 mlynedd. Nid yn unig mae wedi cyflawni hynny ond mae'n awr yn berchen ar 150 hectar o dir yng ngorllewin Cymru ac mae'n rhentu 270ha arall ar fenter arall yn yr un ardal. Daeth cyfle mawr Matthew o ran ffermio pan gynigwyd menter ar y cyd iddo gan ffermwr llaeth yng Ngogledd Cymru. Mae'n dweud na wnaeth edrych yn ôl ar ôl hynny a bydd yn esbonio pam.



### RHIDIAN GLYN

Er nad oedd o gefndir amaethyddol, cychwynnodd Rhidian ei yrfa mewn amaethyddiaeth fel cynrychiolydd gwerthu bwydydd anifeiliaid, ond roedd â'i fryd ar ddod yn ffermwr. Yn 2008, cychwynnodd trwy rentu naw erw o dir pori gwael i 15 o ddefaid mynydd Cymreig, ac yna cymerodd dir pori a ddaeth ar gael yn yr ardal leol. Yn 2014 llwyddodd Rhidian i gael tenantiaeth fusnes fferm 10 mlynedd ar fferm fynydd 530 erw. Erbyn hyn mae'r ddiadell wedi tyfu i 800 o famogiaid a 250 o stoc cyfnewid. Fe wnaeth hefyd sefydlu menter fagu heffrod, gan gael grwpiau o 100 o loeau a'u magu am 16 mis, sy'n golygu bod 400 o heffrod yn pori cylchdro dros gyfnod yr haf a 280 yno yn ystod y gaeaf.



### YR ATHRO ALICE STANTON

Mae'r Athro Alice Stanton yn wyddonydd-glinigwr. Ar hyn o bryd mae'n Athro Ffarmacoleg Cardiofasciwlaidd yng Ngholeg Brenhinol y Llawfeddygon yn Iwerddon, ac yn Gyfarwyddwr Iechyd Dynol yn Devenish Nutrition. Mae ei diddordebau arbennig yn cynnwys; diagnosis a rheoli pwysedd gwaed uchel, meddygaeth wedi ei phersonoli, asidau brasterog amlannirlawn omega-3, ac yn fwyaf diweddar cynhyrchu bwydydd llawn maetholion yn gynaliadwy i sicrhau diet iach i bawb. Ar hyn o bryd mae ar y pwyllgor yn datblygu "Strategaeth Bwyd-amaeth Iwerddon hyd 2030" ac mae'n Aelod Cynulliad ar gyfer Cenhadaeth Ganser Ewrop Horizon.



### SOPHIE COLQUHOUN

Mae Sophie yn arweinydd profiadol o ran marchnata bwyd ac yn arbenigwraig ar strategaeth categori. Treuliodd Sophie 20+ mlynedd yn y diwydiant bwyd, yn hyfforddi gyda Mars, fel Rheolwr Categori yn Ginsters a Chyfarwyddwr Marchnata'r Grŵp i Tulip Foods. Mae'n gweithio gyda Brookdale Consulting i gyflenwi Rhaglen Mewnwelediad Strategol Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru, ac mae'n rhedeg ei busnes ei hun, Category-Insight. Cred yn angerddol bod mewnwelediad da yn ganolog i ddarparu yr hyn y mae'r cwsmer ei eisiau a bod atebion sy'n cael eu harwain gan fewnwelediad i gwsmeriaid yn llawer mwy tebygol o lwyddo yn y farchnad.



### ANNE VILLEMOES

Mae Anne Villemoes yn areithwraig boblogaidd ac wedi derbyn gwobrau rhyngwladol fel Arbenigwraig Rheoli Enw Da, sydd wedi gweithio yn fyd-eang ar fwyd a gwleidyddiaeth defnyddwyr o bob ongl gyfathrebu ers 25 mlynedd. Treuliodd ddeng mlynedd fel Is-lywydd Cyfathrebu a Brandio'r Grŵp yn Danish Crown - yr ail gynhyrchwr porc mwyaf yn y byd, ac un o brif gynhyrchwyr cig wedi ei brosesu Ewrop. Cyn hynny, bu'n gyfrifol am gyfathrebu mewn cyrff anllywodraethol, cadwyni manwerthu ac yn gynghorydd arbenigol i'r gweinidog Bwyd ac Amaethydd, Ritt Bjerregaard. Cychwynnodd ei gyrfa ym myd newyddiaduraeth teledu ac yna'r papur newydd mwyaf yn Nenmarc am nifer o flynyddoedd. Nid yw'n osgoi dadl. Mae'n credu mewn tryloywder – a'i dweud hi fel y mae.